**CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH SIR GAERFYRDDIN/MAMALIAID ADRAN 42**


Cyfeiriwch at www.mammal.org.uk/species_hub i gael gwybodaeth fanylach am y rhywogaethau

**YR AMCANION CYFFREDINOL**

• Clustnodi safleoedd newydd ar gyfer cynnal arolygon yn y sir.
• Hybu diddordeb gwirfoddolwyr mewn mamaliaid.
• Defnyddio rhywogaethau allweddol yn ganolbwynt ar gyfer ymwneud â'r cyhoedd/ysgolion.
• Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau hynny a'r materion sy'n effeithio arnynt.

| Y RHYWOGAETH | FFOTOGRAFF | Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN | Y MATERION / CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL |
|---|---|---|---|
| *Arvicola terrestris*<br>Llygoden bengron y dŵr<br><br>© Dyfrig Jones |  | • Dŵr Croyw/Gwlyptir<br>• Wedi'i dosbarthu'n llawer mwy eang ar un adeg, ond bellach mae'r prif boblogaethau ar wastadeddau Llanelli ac yn ardal Lacharn-Pentywyn.<br>• Er bod ambell gofnod o'r ucheldir, yn ôl pob tebyg nid yw llygod pengrwn y dŵr wedi'u cofnodi'n ddigonol yn y rhannau hyn o'r sir. | • Y rhesymau dros y dirywiad yn niferoedd yr anifail hwn yn y sir yw difetha a cholli/darnio cynefin, bod yn ysglyfaeth i finc, a gwaith datblygu.<br>• Mae Llanelli'n safle allweddol yn genedlaethol i lygod pengrwn y dŵr yn y Deyrnas Unedig.<br>• Gweler y Cynllun Gweithredu ar gyfer Llygoden Bengron y Dŵr ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.<br>• Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru (YNDGC) wedi cyflogi swyddog prosiect llygod pengrwn y dŵr ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. |
| *Barbastella barbastellus*<br>Ystlum du<br><br>© Hugh Clark/ www.bats.org.uk |  | • Coetir<br>• Yn byw, yn ôl pob tebyg, mewn coetiroedd mawr sy'n fwy aeddfed ac amrywiol mewn cymoedd dyfnion, ond nid oes cofnodion wedi'u cadarnhau. | • Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer Rhywogaethau Ystlumod ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Erinaceus europaeus*<br>Draenog<br><br>© R. Burkmar |  | • Tir Ffermio, Tir Llwyd a Gerddi | • Prin yw'r wybodaeth am eu niferoedd a'u dosbarthiad yn y sir ond, fel sy'n wir yng ngweddill y wlad, mae'n ymddangos bod dirywiad yn eu niferoedd.<br>• Yn ôl pob tebyg, y bygythiad mwyaf i ddraenogod yw colli eu cynefin, ynghyd â dirywiad ffermio cymysg a chynnydd mewn maint caeau sy'n golygu y gwaredir perthi.<br>• Mae'r defnydd o gemegion mewn gerddi ac ar gyfer ffermio dwys yn lladd yr ysglyfaeth sydd ei hangen ar ddraenogod fel bwyd, a gallent gael eu gwenwyno'n uniongyrchol yn ogystal. Caiff llawer eu lladd ar y ffyrdd hefyd.<br>• Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn casglu cofnodion o ddraenogod yn y sir.<br>• Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer y Draenog ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Lepus europaeus*<br>Ysgyfarnog<br><br>© Mark Newton |  | • Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir / Arfordir /Tir Llwyd / Coetir / Ucheldir<br>• Wedi'i dosbarthu'n llawer mwy eang ar un adeg, ond bellach mae'r prif boblogaethau mewn ardaloedd bryniog nad ydynt yn cael eu ffermio mor ddwys, yng ngogledd a dwyrain y sir. Hefyd mae penrhyn Pen-bre yn ardal bwysig yn y sir i ysgyfarnogod. | • Y rhesymau dros y dirywiad yw colli cynefinoedd amaethyddol, newidiadau o ran y drefn gynaeafu a phlannu, er enghraifft newid o gywain gwair sych i ladd silwair, a phlannu cnydau grawn yn yr hydref.<br>• Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer yr Ysgyfarnog ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.<br>• Mae ymgyrch cardiau post ar gyfer cofnodi wedi bod ar waith ers cryn amser. |

| Y RHYWOGAETH | FFOTOGRAFF | Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN | Y MATERION / CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL |
|---|---|---|---|
| | | | |
| *Lutra lutra*<br>Dyfrgi<br><br>© Mark Newton |  | • Dŵr Croyw/Gwlyptir/Arfordir<br>• Mae dyfrgwn wedi'u dosbarthu'n eang ar gyrsiau dŵr a chynefinoedd cysylltiedig ledled y sir. Fe'u gwelir yn achlysurol mewn ardaloedd mwy trefol fel Llanelli ac ar hyd afon Tywi islaw Caerfyrddin. | • Er bod y poblogaethau wedi ailgryfhau'n genedlaethol, erbyn heddiw damweiniau traffig ffyrdd yw un o'r prif resymau dros farwolaethau ac efallai fod poblogaethau'n cael eu cyfyngu gan brinder safleoedd magu ynysig addas a diffyg ysglyfaeth, yn enwedig llysywennod dŵr croyw.<br>• Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer y Dyfrgi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Martes martes*<br>Bele’r coed<br><br>© Tony Braithewaite |  | • Anifail sy'n byw ar ei ben ei hun yw bele’r coed. Mae ei boblogaeth yn isel o ran dwysedd ac mae'n byw mewn coetiroedd collddail a chonwydd yn ogystal ag ar dir mwy agored fel mannau creigiog.<br>• Mae'n debygol fod poblogaeth weddilliol yn y sir ac mae cofnodion o'r gogledd a'r dwyrain. Gwnaed y cofnod diweddaraf yn Allt Rhyd y Groes yn 2013 yn rhannau uchaf Dyffryn Tywi. | • Mae nifer o resymau pam nad yw poblogaethau belaod y coed yn gallu ailgryfhau: mae’r gorchudd sy’n cael ei roi gan goedwigoedd yn ddarniog, ac yn y planhigfeydd mwyaf ar yr ucheldir does dim llawer o ysglyfaeth; mae coed addas gyda cheudodau ynddynt yn brin; mae ucheldiroedd creigiog a allai fod yn lloches o fath arall yn cael eu pori’n ddwys ac mae’r ysglyfaeth yn wael.<br>• Mae gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent swyddog Bele'r Coed ar gyfer Cymru, ynghyd â phrosiect i ystyried opsiynau ailgyflwyno posibl.<br>• Mae arolygon tail wedi cael eu cynnal. |
| *Micromys minutus*<br>Llygoden yr ŷd<br><br>© Vaughan Matthews |  | • Gwlyptir/Tir Ffermio - mae'n byw mewn glaswelltir twmpathog hir, gwelyau cyrs, perthi ac ar gyrion coetiroedd.<br>• Er mai'r unig safle yn y sir lle mae'r rhywogaeth hon wedi'i chadarnhau yw Ffen y Ffrwd, mae pobl yn eithaf sicr o'i phresenoldeb mewn mannau eraill hefyd. | • Prin iawn yw'r wybodaeth am y mamal hwn (y mae'n anodd iawn ei weld) yn y sir.<br>• Mae'r prosiect Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy yn cynnal arolwg o Lygod yr ŷd yn y sir yn 2014.<br>• Ceir Arolwg Cenedlaethol o Lygod yr ŷd (2013–14) |
| *Muscardinus avellanarius*<br>Pathew<br><br>© Jacqueline Hartley |  | • Tir Ffermio / Coetir. Mae coetiroedd lle mae'r is-dyfiant yn drwchus yn gynefin da ac mae perthi, prysgwydd, a mieri yn gynefinoedd pwysig hefyd. Mae'n debyg bod y pathew yn defnyddio twmpathau glaswellt y gweunydd fel nythod i aeafgysgu.<br><br>• Prif gadarnle'r pathew yn y sir yw'r triongl a ffurfir gan drefi Caerfyrddin, Llandeilo, a Llanelli, er bod cofnod ohono mewn mannau eraill hefyd. | • Colli/darnio cynefin yw un o brif achosion y dirywiad yn y sir gan fod hynny'n ynysu poblogaethau.<br>• Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer y Pathew ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.<br>• Mae nifer o safleoedd sydd â blychau i bathewod yn cael eu monitro yn y sir, a cheir grŵp pathewod anffurfiol a thudalen Facebook. |
| *Mustela putorius*<br>Ffwlbart<br><br>© K. Williamson |  | • Deuir o hyd i'r ffwlbart mewn amrywiaeth o gynefinoedd sy'n cynnwys tir ffermio, coetir, corsydd, glannau afonydd, cloddiau, clogwyni môr a thwyni tywod.<br>• Mae poblogaethau'r ffwlbart yn ailgryfhau yn y Deyrnas Unedig yn dilyn dirywiad nodedig yn ystod y | • Mae diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol o statws ac ymddygiad y ffwlbart.<br>• Dengys arolygon diweddar mai prin yw'r cofnodion ar gyfer Gorllewin Cymru - ni wyddys ai dirywiad yn nifer yr anifeiliaid sy'n gyfrifol am hyn ynteu nad yw'r rhywogaeth hon wedi'i |

| Y RHYWOGAETH | FFOTOGRAFF | Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN | Y MATERION / CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL |
|---|---|---|---|
| | | bedwaredd ganrif ar bymtheg - cyfnod pan fu i ganolbarth Cymru barhau'n gadarnle iddo.<br>• Mae cofnod ohonynt ledled y sir, ond maent yn anodd iawn eu gweld o hyd. Fe'u gwelir gan amlaf wedi'u lladd ar y ffordd. | chofnodi'n ddigonol.<br>• Mae Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy am gael cofnodion o ffwlbartiaid.<br>• Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn awyddus i gael gwybod am unrhyw gofnodion cyfredol a chyrff (a gasglwyd yn ystod 2014-2015) ffwlbartiaid sy'n byw'n wyllt neu ffuredau gwyllt. |
| *Nyctalus noctula*<br>Ystlum mawr<br><br>© R.E. Stebbings/<br>www.bats.org.uk |  | • Rhywogaeth gyffredin ac eang yn y sir. Hwn yw un o'n hystlumod mwyaf, ac mae'n bwyta clêr, chwilod, a gwyfynod. Fe'i cysylltir â choetiroedd a pharcdiroedd lle mae coed aeddfed yn darparu safleoedd clwydo da. | • Gweler y cynllun gweithredu ynghylch Rhywogaethau Ystlumod ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Pipistrellus pygmaeus*<br>Ystlum lleiaf meinlais<br><br>© Hugh Clark/<br>www.bats.org.uk |  | • Rhywogaeth gyffredin ac eang yn y sir. Ystlum bach y deuir o hyd iddo mewn gwlyptiroedd, er enghraifft ar gyrion afonydd a llynnoedd. Yn aml mae'n clwydo mewn craciau yn waliau allanol tai ac adeiladau. Yn bennaf mae'n bwyta clêr bach yn enwedig gwybed mân a mosgitos sydd â chysylltiad â dŵr. | • Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer Rhywogaethau Ystlumod ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Plecotus auritus*<br>Ystlum hirglust<br><br>© John Altringham/<br>www.bats.org.uk |  | • Rhywogaeth gyffredin ac eang yn y sir. Maent yn hedfan yn agos at lystyfiant neu mewn coetiroedd, ac yn aml defnyddiant eu clustiau mawr i glustfeinio am synau ysglyfaeth ac i godi trychfilod o wyneb yr isdyfiant. Yn bennaf mae'n bwyta gwyfynod, chwilod, clêr, pryfed clustiog, a chorynnod. Fel arfer mae nifer bychan yn clwydo gyda'i gilydd mewn hen adeiladau, ysguboriau, eglwysi, a choed. | • Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer Rhywogaethau Ystlumod ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Rhinolophus ferrumequinum*<br>Ystlum pedol mwyaf<br><br>© Tom McOwat |  | • Yn ôl pob tebyg mae'r ystlum pedol mwyaf wedi'i ddosbarthu'n eang ond bychain yw eu niferoedd. Mae wedi'i gyfyngu'n bennaf i dde'r sir, ond hefyd mae i'w weld yr holl ffordd i fyny Dyffryn Tywi hyd at Lanymddyfri o leiaf ac yn Nolau-cothi.<br>• Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion ar gyfer ystlumod unigol sy'n gaeafu mewn ogofâu neu gloddfeydd.<br>• Yn bennaf mae'n bwyta trychfilod mawr megis chwilod y gerddi, chwilod y dom, gwyfynod, a phryfed gwellt. | • Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer Rhywogaethau Ystlumod ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Rhinolophus hipposideros*<br>Ystlum pedol lleiaf<br><br>© Conor Kelleher/<br>www.bats.org.uk |  | • Nid yw'r ystlum pedol lleiaf wedi'i ddosbarthu mor eang, ond hefyd hon yw'r rhywogaeth fwyaf celgar ac yn sgil hynny prin y sylwir arni. Mae systemau'r ogofâu, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r gefnen galchfaen, yn safleoedd gaeafgysgu pwysig fel y mae rhai o'r hen weithfeydd mwynau.<br>• Mae cofnodion o'r rhywogaeth hon wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br>• Mae'n bwyta amrywiaeth o drychfilod bychain. | • Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer Rhywogaethau Ystlumod ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

| Y RHYWOGAETH | FFOTOGRAFF | Y CYNEFIN / SAFLEOEDD YN SIR GAERFYRDDIN | Y MATERION / CAMAU GWEITHREDU GOFYNNOL |
|---|---|---|---|
| *Sciurus vulgaris*<br>Gwiwer goch<br><br>© Lizzie Wilberforce |  | • Yn Sir Gaerfyrddin mae gwiwerod coch wedi eu cyfyngu'n bennaf bellach i blanhigfeydd conwydd mawrion yng ngogledd y sir. O bryd i'w gilydd fe'u gwelir mewn coetiroedd collddail sydd o amgylch y planhigfeydd hyn. | • Mae prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn gweithio er mwyn gwarchod gwiwerod coch a chynyddu eu niferoedd.<br>• Mae gwiwerod llwyd yn fygythiad parhaus i'r rhai coch gan eu bod yn rheoli cynefinoedd ac yn cludo brech y gwiwerod, sy'n angheuol i wiwerod coch.<br>• Mae swyddog prosiect wedi'i gyflogi i weithio gyda gwirfoddolwyr/grwpiau cymunedol am y 5 mlynedd nesaf.<br>• Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer y Wiwer Goch ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| *Pipistrellus pipistrellus*<br>Ystlum lleiaf<br><br>©Hugh Clark/<br>www.bats.org.uk |  | • Rhywogaeth gyffredin ac eang yn y sir. Ystlum bach yw hwn sydd i'w weld mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd yn cynnwys tir ffermio, coetir, maestrefi, a threfi. Yn aml mae'n clwydo mewn craciau yn waliau allanol tai ac adeiladau. Mae'n bwyta clêr bach yn bennaf. | Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer Rhywogaethau Ystlumod ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

* Rhywogaeth Adran 42 ac nid Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU